

Pembrokeshire County Council



Event Safety Guide

An operational guide to assist organisers of events in Pembrokeshire



by PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL

APRIL 2014

Cynnwys

	Tudalen
1.0 Cyflwyniad	1
2.0 Cynllunio o flaen llaw	3
2.1 Meini Prawf Asesu (Math o Ddigwyddiad)	
2.2 Golwg Dros Ddiogelwch y Digwyddiad	
3.0 Trefnu'r Digwyddiad	14
4.0 Paratodau Terfynol	17
5.0 Ar ôl y Digwyddiad	18
Atodiadau	19
<i>Atodiad 1: Rhestr cysylltiadau a rhagor o wybodaeth</i>	
<i>Atodiad 2: Rhestri Adolygu (Iechyd a Diogelwch)</i>	
<i>Atodiad 3: Ffurflen Asesu Risgiau</i>	

Dogfen		Dyddiad	Fersiwn	Perchennog
Rheolaeth		Ebrill 2014	Terfynol V1.0	HoPP

Manylion cysylltu ar gyfer y ddogfen hon:

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

Ffôn: 01437 775721

E-bost: [ymholiadau@sir-benfro.gov.uk](mailto:yholiadau@sir-benfro.gov.uk)

1.0 Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi datblygu **Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro** yn 2014 a luniwyd fel dogfen droswaol ar gyfer datblygu'r portffolio digwyddiadau yn y Sir, trwy gynorthwyo denu digwyddiadau newydd a chyfleoedd ariannu digwyddiadau. Y ddogfen allweddol sy'n llywio'r strategaeth hon yw Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru 2010 – 2020 Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/tourism/marketing1/majorevents/?lang=en>

Ble bynnag y bo modd, defnyddiwyd Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru 2010 – 2020 i ysbrydoli Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro, a'r canllawiau hyn o ganlyniad, i sicrhau agwedd gydgyssylltiedig a chydlynol. Er enghraifft, defnyddiwyd categorïau'r digwyddiadau sy'n cael eu cyfeirio atynt yn nogfen Llywodraeth Cymru, yn y ddogfen hon hefyd.

Wrth amlinellu'r canlyniadau y dylai digwyddiadau fod yn ceisio'u cyrraedd, mae'r ddogfen yn cyfeirio at Feini Prawf Asesu Digwyddiadau Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru (<http://wales.gov.uk/topics/tourism/marketing1/majorevents/guidance/?lang=en>). Dylai holl ddogwyddiadau yn Sir Benfro fod yn gweithio tuag gyflawni'r canlyniadau hyn.

Yn ogystal, yn unol â Chroeso Cymru Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013 – 2020

<http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/Tourism/130613partnershipforgrowthen.pdf>

Un o brif nodau Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro yw "**Datblygu gweithgaredd twristiaeth a marchnadoedd arbenigol a sicrhau elwa i'r eithaf ar ddigwyddiadau mawr**" ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at y canolbwynt ar Hyrwyddo'r Brand; a Datblygu Cynnyrch.

Mae Strategaeth Digwyddiadau Mawr Cyngor Sir Penfro i'w chael yn:

www.sir-benfro.gov.uk

Yn lleol, caiff hyn ei atgyfnerthu gan *Gynllun Rheoli Cyrchfannau* Partneriaeth Cyrchfannau Sir Benfro, yn ogystal â chael blaenoriaeth benodol o fewn y cynllun cysylltiedig â digwyddiadau, sef:

- Datblygu a chefnogi rhaglen digwyddiadau cynaliadwy

Mae'n cael ei ystyried hefyd bod digwyddiadau'n cyfrannu at y blaenoriaethau allweddol canlynol:

- Datblygu delwedd rymus o Sir Benfro sy'n apelio at rannau allweddol y farchnad nad ydynt ar hyn o bryd yn ymweld
- Dal i ddatblygu consortia gweithgaredd marchnata er mwyn denu marchnadoedd cloer allweddol
- Cynigion arbennig gwell yn targedu trigolion lleol
- Hybu cynnig twristiaeth bwyd o safon, ar gael drwy'r flwyddyn

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau llawn i'w gael yn:

Creodd Cyngor Sir Penfro'r **Canllaw Diogelwch Digwyddiadau** hwn i gynnig cyngor gweithredol i drefnyddion digwyddiadau ar sut i drefnu / paratoi'n llwyddiannus ar gyfer digwyddiadau wrth gydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch, gofynion trwyddedu, cau ffyrdd ac ati, a chynghori ar yr hyn mae trefnu digwyddiad yn ei olygu'n gyffredinol.

Mae Cyngor Sir Penfro'n ceisio denu digwyddiadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i'r Sir, gan gydnabod y buddiannau diwylliannol, cymunedol ac economaidd sy'n deillio ohonynt.

Mae'r Cyngor yn ymroddi i gynaliadwyedd ac mae'n cydnabod ei swyddogaeth bwysig wrth arwain yr agenda cynaliadwyedd yn lleol. O ganlyniad, mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am wella cynaliadwyedd eich digwyddiad; pa reoliadau sy'n rhaid i chi eu dilyn a'r pethau y bydd angen i chi wneud cais i Adrannau'r Cyngor amdanynt; gwybodaeth am sut fyddwch yn rheoli'r digwyddiad; a beth fydd ei effaith ar yr amgylchedd.

Amcan y canllawiau hyn yw helpu trefnyddion digwyddiadau eu cynnal yn ddiogel, cydymffurfio â'r cyfreithiau a diogelu'r rhai sy'n mynychu ac yn gweithio yn yr achlysur. Mae cynllunio a rheoli da'n allweddol i ddigwyddiad llwyddiannus a, thrwy ddefnyddio isbenawdau'r canllawiau hyn fel rhestr adolygu ar gyfer cynllunio'r gofynion sy'n angenrheidiol i'r digwyddiad ac amlygu'r prif feysydd i'w hystyried mewn asesiad risgiau, dylai'r digwyddiad fod yn llwyddiant at ei gilydd.

Mae gan Gyngor Sir Penfro raglen digwyddiadau rhanbarthol gyda digwyddiadau lluosog yn cael eu llwyfannu ar hyd a lled Sir Benfro yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ymhlith y digwyddiadau hyn mae:

- Dyn Durol Cymru
- Penwythnos y Cwrs Hir
- Taith y Ffagl Olympaidd
- Eisteddfod yr Urdd
- 10k Dinbych-y-pysgod (yn ogystal â marathonau eraill)
- Wythnos Bysgod Sir Benfro

Enwau ychydig yn unig yw'r rhain; trefnwyd llwybrau'r holl achlysuron o flaen llaw ac mae gan drefnyddion y digwyddiadau wybodaeth arbenigol o'r ardal.

Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli'r gofynion bod trefnyddion achlysuron yn gofyn am gyngor a/neu ganiatâd o fannau eraill oddi allan i'r Cyngor all gynnwys Heddlu Dyfed Powys, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chwmnïau Gwasanaethau.

2.0 Cynllunio o flaen llaw

Drwy'r adran hon i gyd mae nifer o isbenawdau fydd yn eich llywio i'r cyfeiriad iawn. Wrth drefnu digwyddiad mae cynllunio o flaen llaw'n rhan hanfodol o'r hyn sydd ei angen, y rheolau a rheoliadau y dylid eu dilyn, y trwyddedau y dylid eu cael a phwy fydd yn gyfrifol am bob swyddogaeth.

Ystyriwch y **Ble, Pryd, Pwy a Beth** canlynol:

Ble

- Cysylltwch â pherchennog tir i sicrhau bod y lleoliad a ddewiswyd ar gael a faint fydd i'w logi.
- Sicrhewch fod y lleoliad a ddewiswyd yn ddigonol ar gyfer y digwyddiad arfaethedig.
- Peidiwch ag anghofio ystyried yr effaith ar y gymuned leol.
- A oes modd lleoli'r digwyddiad i leihau sŵn?
- Pa mor hawdd fydd hi i bobl gyrraedd y lleoliad ac a oes yna unrhyw ofynion parcio ceir?
- Ystyriwch addasrwydd y lleoliad ac unrhyw risgiau sydd eisoes ar y safle fel peryglon dŵr, ceblau trydan uwchben, ac ati.
- Ystyriwch a fydd llwybrau mynediad brys yn ddigonol neu beidio.
- A fydd arnoch angen caniatâd perchennog tir preifat?

Pryd

- Ystyriwch yr adeg o'r flwyddyn, gan gynnwys canlyniadau tywydd eithafol mewn digwyddiad awyr agored.
- Bydd angen ystyried diwrnod yr wythnos a'r amser hefyd o ran natur y digwyddiad, sŵn a rhwyddineb teithio, ac ati.
- Yn ôl pob tebyg bydd angen i chi drefnu goleuo ar gyfer achlysur min nos.
- Ni ddylai'r digwyddiad wrthdaro gydag unrhyw ddigwyddiadau mawr eraill yn y cylch, ac efallai y gall y Cyngor ddweud wrthyh am y digwyddiadau eraill.

Pwy

- Enwch nodau'r digwyddiad ac amcangyfrif faint o bobl y mae disgwyl iddynt fynychu.
- A ydych yn anelu at grwpiau neu fathau arbennig o bobl, fel plant, pobl ifanc, pobl oedrannus neu bobl anabl? Os felly, efallai y bydd angen cyfleusterau penodol ar eu cyfer neu stiwardiaid ychwanegol i sicrhau cynnal safonau diogelwch digonol.
- Dylid neilltuo swyddogaethau i bobl benodol sy'n addas ar gyfer y gwaith gyda phrofiad a chymwysterau.

Beth

- Penderfynwch ar y math o weithgareddau i'w cynnal.
- A fydd yna unrhyw risgiau penodol fel anifeiliaid neu chwaraeon dŵr?
- Os gallwch, ceisiwch hefyd amcangyfrif maint y digwyddiad arfaethedig ac a fydd tâl mynediad yn cael ei godi neu beidio.
- Os caiff bwyd ei weini, efallai y bydd angen cael trwydded neu gofrestru.

Cynaliadwyedd

Yn ogystal â lleihau effaith amgylcheddol eich digwyddiad fe all gwell cynaliadwyedd hefyd hyrwyddo enw da eich sefydliad ac arbed costau; felly, mae'n werth meddwl sut allwch chi wneud eich digwyddiad yn "wyrdd". Meysydd allweddol i'w hystyried yw hygyrchedd (e.e. a oes modd cyrraedd y lleoliad yn rhwydd ar gludiant cyhoeddus?), rheoli gwastraff (e.e. a oes modd darparu cyfleusterau ailgylchu?), bwyd cynaliadwy (e.e. a oes modd defnyddio cyflenwyr lleol?), marchnata (e.e. a oes modd defnyddio llai o bapur wrth hysbysebu'r digwyddiad?) a gwrthbwysio carbon.

Yswiriant

Ar gyfer holl ddigwyddiadau bydd angen Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyda Therfyn Indemniad o £5 miliwn (pum miliwn punt) o leiaf ac yn cynnwys cymal IndemnioPenaethiaid. Bydd ar holl gontractwyr a pherfformwyr hefyd angen eu Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus eu hunain gyda Therfyn Indemniad o £5 miliwn (pum miliwn punt) o leiaf. Yn dibynnu ar natur y sefydliad sy'n cynllunio'r digwyddiad a'r digwyddiad arfaethedig ei hun, efallai y bydd angen yswiriannau eraill hefyd. Dylech gael eich darparwr yswiriant i gynnig prisiau.

Amserlen

Amlinellwch yr amserlen arfaethedig a cherrig milltir, gan roi cymaint o amser ag y gallwch i drefnu'r digwyddiad (efallai y bydd arnoch angen cymaint â 12-18 mis o amser cynllunio). Efallai y bydd angen peth cyngor arbenigol a gall caniatâd arbennig gymryd amser. Bydd angen i chi adael amser ar gyfer cael unrhyw drwyddedau neu ganiatâd. Peidiwch ag anghofio y gall yr haf fod yn adeg brysur, gyda channoedd o achlysuron yn digwydd yn eich ardal.

2.1 Meini Prawf Asesu Digwyddiad:

Wrth gynllunio eich digwyddiad penderfynwch ym mha gategori mae eich digwyddiad o fewn pedair adran y meini prawf asesu. Caiff tri o'r meini prawf asesu hyn eu hamlinellu yn y Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru a diffiniwyd yr olaf gan y Cyngor.

Y rhain yw: ***Digwyddiadau Mawr, Digwyddiadau Unigryw, Digwyddiadau Twf a Digwyddiadau Cymunedol***

Mae modd creu nifer o amcanion o feini prawf digwyddiadau:

- Nifer y swyddi llawn-amser sy'n cael eu creu oherwydd y digwyddiad
- Allbynnau hyfforddiant a sgiliau
- Defnyddio cynhyrchion a gwasanaethau lleol
- Cynnydd mewn twristiaeth oddi allan i'r tymor brig
- Lleihau gwastraff i'r eithaf trwy gwtogi, aildefnyddio ac ailgylchu (ymwybyddiaeth o'r amgylchedd)
- Hyrwyddo sylw i'r digwyddiad e.e. teledu, y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd.
- Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg.
- Ysgogi menter newydd a thwf busnes.

Digwyddiadau Mawr yw digwyddiadau teithiol unigol neu afreolaidd sydd yno i ddenu cynulleidfaoedd rhyngwladol mwy a chael sylw helaeth y cyfryngau, ac sydd hefyd yn gallu creu effaith economaidd, hyrwyddo twristiaeth a pheri twf busnes yn yr ardal sy'n eu croesawu. Mae digwyddiadau yn y categori hwn yn cynnwys Pencampwriaeth Plymio o Glogwyni Red Bull. Dylai trefnydd y digwyddiad ganiatáu **12 mis ar gyfer paratoi** wrth wneud cais i Gyngor Sir Penfro am drwyddedau cyn y digwyddiad.

Digwyddiadau Unigryw yw digwyddiadau rheolaidd sy'n benodol i Sir Benfro ond sydd hefyd yn unigryw a neilltuol. Eu bwriad yw gwella delwedd a diwylliant Cymru sy'n brofiad buddiol i dwristiaeth. Mae nifer bach o'r digwyddiadau hyn yn unigryw yng Nghymru ac yn tynnu sylw'r cyfryngau rhyngwladol fel Dyn Durol Cymru. Bydd eraill yn cynhyrchu sylw sylweddol yn y DU fel Wythnos Bysgod Sir Benfro a'r *Really Wild Food Festival* yn Nhyddewi. Dylai trefnydd y digwyddiad ganiatáu o leiaf **9 mis ar gyfer paratoi** wrth wneud cais i'r Gyngor am drwyddedau cyn y digwyddiad.

Digwyddiadau Twf yw achlysuron llai neu newydd sy'n gallu datblygu a dod yn ddigwyddiadau mawr neu unigryw dros gyfnod. Byddai digwyddiadau yn y categori hwn yn cynnwys Gŵyl y Blws Dinbych-y-pysgod a Phenwythnos y Cwrs Hir seiliedig ar Ddinbych-y-pysgod. Dylai trefnydd y digwyddiad ganiatáu o leiaf **3 mis ar gyfer paratoi** wrth wneud cais i'r Gyngor am drwyddedau cyn y digwyddiad.

Mae **Digwyddiadau Cymunedol** yntueddu i fod yn llwyddiannus a phoblogaidd yn eu cymunedau, er y gallant ddenu ymwelwyr i'r Sir, fel achlysuron elusennau. Maent yn cyflwyno cynnyrch lleol, traddodiadau ac adloniant i'w cymunedau, sydd hefyd yn gallu hyrwyddo a chefnogi busnesau lleol gan greu effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Gallai digwyddiadau cymunedol ddod yn ddigwyddiadau sylweddol dros gyfnod. Dylai trefnydd y digwyddiad ganiatáu o leiaf **2 fis ar gyfer paratoi** wrth wneud cais i Gyngor Sir Penfro am drwyddedau cyn y digwyddiad.

Trwyddedau eiddo ac adeiladau a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro (TEN)

Os yw'r digwyddiad i gynnwys darparu 'gweithgareddau trwyddedadwy' yn ôl diffiniad Deddf Trwyddedu 2003, bydd angen trwydded eiddo ac adeiladau neu Rybudd Digwyddiadau Dros Dro (TEN). Mae gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys:

- Gwerthu neu gyflenwi alcohol
- Adloniant rheoledig, sef un o'r canlynol:
 - Perfformio dramâu
 - Arddangosfeydd ffilmiau
 - Chwaraeon dan do
 - Adloniant paffio neu ymaflyd
 - Perfformio cerddoriaeth fyw
 - Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio
 - Perfformio dawnys neu adloniant o ddisgrifiad tebyg
- Gwerthu bwyd neu ddiodydd poeth yn neu o'r eiddo ac adeiladau rhwng 23:00 a 05:00.

Nid yw trwyddedau TEN yn addas i holl ddigwyddiadau oherwydd maint y torfeydd, oherwydd bod y gynulleidfa'n gallu cynnwys unigolion sy'n gallu gwyllo'r digwyddiad oddi allan i'r ardal drwyddedig. Bydd digwyddiadau mwy'n gorfod gwneud cais am drwydded eiddo ac adeiladau. Cofiwch sicrhau eich bod yn rhoi gwybodaeth gywir i'r Tîm Trwyddedu a'ch amcangyfrif o faint y gynulleidfa y disgwylwch ei denu.

Bydd ffi'n cael ei chodi am drwyddedau eiddo ac adeiladau neu TEN. Efallai na fydd caniatâd i ddefnyddio safleoedd ym meddiant y Cyngor Sir. Cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu yn licensing@sir-benfro.gov.uk neu ffoniwch 01437 764551. Hefyd cofiwch sicrhau eich bod yn hysbysu Heddlu Dyfed Powys o'r digwyddiad ymlaen llaw.

Materion cysylltiedig ag alcohol

Alcohol yw'r ffactor dull o fyw sy'n peryglu iechyd fwyaf trwy salwch a marwolaeth ar ôl tybaco. Mae'n bwysig bod trefnyddion digwyddiadau'n ystyried lleihau'r peryglon, yn enwedig os yw'r tywydd yn boeth a heulog. Y pryder gyda hyn yw nad yw pobl efallai'n sylweddoli'r hyn a wnânt i'w cyrff pan fyddant yn cymysgu diodydd alcoholaidd gyda haul poeth yr haf oherwydd bod alcohol yn sychu'r corff. Mae corff wedi sychu'n fwy tueddol o ddiodef blinder gwres, sy'n gallu achosi tymheredd corfforol uchel, mynd yn benysgafn, neu hyd yn oed fynd yn anymwybodol. Yn waeth fyth, fe all blinder gwres arwain at drawiad gwres os nad yw'n cael sylw ar unwaith. Yn ystod trawiad gwres, bydd rhywun yn gyffredinol yn dioddef cynnydd sydyn mewn tymheredd corfforol sy'n gallu arwain at goma.

Nid yw cael diodydd alcoholaidd mewn digwyddiad awyr agored yn yr haf yn gorfod peryglu iechyd cyn belled â bod rhagofalon yn cael eu cymryd. Cofiwch fod alcohol yn sychu ac, er y gall pobl fod yn torri eu syched, mae eu cyrff yn colli dŵr. Os byddant yn ail-lenwi gyda dŵr gallant leihau perygl diffyg hylif a blinder gwres. Dylai unrhyw stiwardiaid neu farsialiaid allu sylwi ar yr arwyddion hyn yn gynnar. Dylid ystyried cael ardaloedd "ymlacio" neu ddarparu ffynhonnau dŵr am ddim. Byddai modd lleihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol sy'n gofyn am sylw'r stiwardiaid neu farsialiaid hefyd.

Caniatâd Tir

Gan ddibynnu ar ble mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal efallai y bydd angen caniatâd perchennog y tir. Mae modd pennu cyfyngiadau amser ar ddigwyddiadau oherwydd llygredd sŵn, all beri gorffen erbyn 22:00. Fe all perchennog y tir bennu'r cyfyngiad hwn hyd yn oed os trwydded gan y trefnydd. Cysylltwch ag Adran Eiddo Cyngor Sir Penfro i drafod caniatâd tir ar dir ym meddiant y Cyngor yn property@sir-benfro.gov.uk neu drwy ffonio 01437 764551.

Cyllideb ac Incwm Digwyddiad

Pan fyddwch yn paratoi cyllideb eich digwyddiad mae angen i chi edrych ar y treuliau a derbyniadau ac ennill digon i dalu eich treuliau bob amser. Os yw'n achlysur codi arian sicrhewch y byddwch yn gwneud elw.

Fe all fod yn rhwyddach creu siart cyllideb sy'n dangos eich holl dreuliau a gall hyn helpu i chi weld lle gallwch leihau costau.

Y ffordd hawddaf o gael elw neu incwm o ddigwyddiad yw tâl cymryd rhan; lle bydd pobl yn talu am ddod iddo. Mae codi tâl, hyd yn oed y tal lleiaf, yn elfen bwysig o lawer digwyddiad. I lawer o bobl, dim ond pethau sy'n costio sydd â gwerth. Mae talu'n gwneud ymroddiad i'r achlysur a'r achos, sy'n un o nodau eich digwyddiad! Ond mae angen i chi feddwl am swm rhesymol y bydd pobl yn barod ei dalu.

Ffordd arall o gynhyrchu incwm yw gwerthu nwyddau yn eich digwyddiad trwy gael stondinau marchnad neu faniau arlwyio symudol. Mae hyd yn oed codi am doiledau'n gallu talu treuliau ond efallai nad yw hyn yn addas heblaw ar gyfer Digwyddiadau Mawr.

2.2 Golwg Dros Ddiogelwch y Digwyddiad

Mae Cynllun Digwyddiad yn ddogfen hanfodol sy'n amlinellu holl elfennau'r digwyddiad. Er enghraifft:

- Datganiad polisi diogelwch y digwyddiad a fyddai'n manylu strwythur hierarchaidd cyfrifoldebau diogelwch
- Asesiad o risgiau' digwyddiad
- Manylion y digwyddiad
- Cynllun diogelwch y safle
- Cynllun rheoli torfeydd
- Cynllun rheoli cludiant
- Cynllun lles
- Cynllun argyfwng
- Cynllun meddygol
- Cynllun cyfathrebu

Yn ogystal, wrth ystyried cynnal digwyddiad, dylai ystyriaethau iechyd a diogelwch fod yn rhan sylfaenol o'r cynllunio o flaen llaw a thrwy gydol y digwyddiad. Bydd **asesiad risgiau** yn ofynnol gan fanylu ar beryglon a risgiau'r digwyddiad a sut mae'r rhain yn mynd i gael eu rheoli'n effeithiol. Fe all y peryglon beryglu'r staff, y cyhoedd a chyfranogwyr ac, felly, rhaid i'r rhain i gyd gael eu nodi yn ffurflen yr asesiad risgiau.

Dylid neilltuo cyfrifoldeb dros unrhyw gamau adfer sy'n cael eu nodi yn yr asesiad risgiau i unigolyn neu unigolion yn sefydliad y digwyddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel ac, o bwysigrwydd allweddol i ddiogelwch, yw cyfathrebu da gyda phersonél y digwyddiad i gadw golwg ar ddatblygiadau.

Asesu Risgiau (Gwelwch Atodiad 3)

Mae asesiad risgiau a datganiadau dull yn ofyniad cyfreithiol ac i'w gwneud ar gyfer pob digwyddiad neu ar gyfer pob rhan o ddigwyddiad os yw'r digwyddiad at ei gilydd yn fawr.

Nid yw asesiad risgiau a datganiadau dull yn ddim mwy nag archwiliad gofalus o beth, yn eich barn chi, allai beri niwed i bobl, er mwyn i chi allu penderfynu a ydych wedi cymryd digon o ragofalon neu a ddylech chi wneud mwy i atal posibilrwydd niwed. Y nod yw dileu, lleihau, rheoli neu ddiogelu unrhyw berygl sy'n cael ei nodi.

Wrth ystyried pa risgiau all achosi perygl dylech yn gyntaf ystyried y mathau o bobl y gellid effeithio arnynt, e.e. stiwardiaid, cyflogeion, contractwyr a'r cyhoedd – yn y bôn pawb sy'n mynychu'r digwyddiad. Yna byddwch yn gallu pennu'r meysydd i'w hystyried wrth greu eich asesiad risg.

Wrth asesu risg rhaid ei gwerthuso'n llawn a llunio dull rheoli i'w hatal rhag digwydd. Dylid dosbarthu'r risgiau'n categorïau isel, canolig ac uchel; gan olygu a oes yna debygolrwydd y bydd yn digwydd ac yn peri niwed. Os ydych yn credu y gall

gweithgaredd beri cymaint o risg yna gallai fod rhwyddach ei ddileu o'r digwyddiad yn gyfan gwbl neu gael hyd i rywbeth yn ei le.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyngor ar y rhagofalon y bydd angen i chi eu cymryd. Dilynwch y ddolen <http://www.hse.gov.uk/event-safety/getting-started.htm>

Mae templed Asesiad Risgiau'n cael ei ddangos yn Atodiad 3 all gynorthwyo wrth ddatblygu asesiad risg eich digwyddiad.

Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG)

Gyda mwy a mwy o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu a'u cynnal yn Sir Benfro, sefydlwyd Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG) yn 2012 a fyddai'n cynorthwyo Cyngor Sir Penfro wrth arfer ei swyddogaethau diogelwch. Mae llawer o'r isadeiledd a chaniatâd sydd ei angen ar gyfer digwyddiadau yn gyfrifoldebau'r Cyngor hefyd. Caiff agwedd tîm at ddigwyddiadau ei defnyddio gyda gwybodaeth arbenigol yn cael ei dwyn i mewn o wyddorau perthnasol yn hytrach na chyflogi tîm digwyddiadau unswydd. Byddai'r grŵp yn sicrhau bod holl faterion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd, rheoli torfeydd, rheoli traffig a rheoli digwyddiadau cyffredinol yn cael eu hadolygu.

Mae ffurfio ESAG yn cael ei gydnabod fel arfer da y bydd modd ei ffurfio i adolygu rhychwant eang o ddigwyddiadau. **Ni fyddai'r grŵpyn gyfrifol am reoli'r digwyddiad ei hun;** ei swyddogaeth fyddai goruchwyllo a chynghori trefnyddion achlysuron i sicrhau bod agweddau diogelwch yn cael sylw.

Bwriad y Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yw:

- Hyrwyddo safonau uchel iechyd a diogelwch y cyhoedd
- Hyrwyddo arferion da cynllunio diogelwch a lles
- Hyrwyddo agwedd gydgyssylltiedig amlasiantaethol at gynllunio digwyddiadau
- Hyrwyddo llunio trefniadau argyfwng ac wrth gefn priodol
- Lleihau unrhyw effaith andwyol digwyddiadau
- Ystyried goblygiadau diogelwch unrhyw ddigwyddiadau sylweddol perthnasol i'r achlysur
- Eglurder swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn y grŵp
- Ystyried yr effaith ar y cyhoedd sy'n teithio
- Adolygu holl gynlluniau rheoli traffig
- Hyrwyddo cyfathrebu da a chadw cyswllt â'r gymuned
- Adolygu dogfennau arferion gorau
- Sefydlu dogfennau cynghori ar ddigwyddiadau ar wefan Cyngor Sir Penfro.

Mae'r Grŵp dan gadeiryddiaeth Penaethiaid Gwasanaeth o Gyngor Sir Penfro, ac mae'n gyfrifol am reoli agwedd awdurdod cyfan at gyflawni digwyddiadau, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n ddiogel ac yn dda, ac mewn ffordd sydd o fudd i'r gymuned.

Ymhlith aelodau'r Grŵp mae:

Cyngor Sir Penfro fel y bo'n briodol i bob digwyddiad:

- Trwyddedu
- Priffyrdd ac Adeiladu

- Cynllunio at Argyfwng
- Iechyd a Diogelwch
- Rheoli Adeiladu
- Rheoli Llygredd
- Cyfathrebu

yn ogystal â chyrrff eraill:

- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
- Asiant Cefnffyrdd De Cymru
- Aelod etholedig (dewisol)

Byddai gwasanaeth arweiniol y Cyngor yn cael ei enwi, gydag aelod ohono hefyd yn gallu bod â swyddogaeth cadeirydd.

Efallai y bydd angen i'r trefnyddion roi cyflwyniad i'r grŵp hwn er mwyn dechrau trafodaeth ar y digwyddiad arfaethedig, arbennig ar gyfer achlysuron mwy.

Gan drefnyddion achlysuron byddai'r ESAG yn disgwyl derbyn Cynllun Digwyddiad, asesiad risg, strwythur trefnyddion y digwyddiad, cynllun safle manwl, manylion cysylltu, ac ati fel lleiafswm. Gall hefyd fod yn angenrheidiol i'r trefnyddion roi cyflwyniad i'r grŵp hwn er mwyn dechrau trafodaeth ar y digwyddiad arfaethedig.

Iechyd a Diogelwch

Bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n cynnwys gweithgaredd (h.y. bydd o leiaf un yn cael ei gyflogi er enghraifft yn ystod paratoi'r safle, y digwyddiad ei hun neu chwalu'r safle) ac, felly, bydd Deddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio ac ati 1974 a deddfwriaeth atodol yn berthnasol. Ymhlith enghreifftiau o'r ddeddfwriaeth mae:

- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 1981
- Rheoliadau Codi a Chario 1992
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002
- Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992
- Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1981
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol 1992

Personél y Digwyddiad

- **Swyddog Diogelwch** – gyda swyddogaeth cyfarwyddo'r digwyddiad a holl agweddau gweithredol, gan weithio gyda staff, contractwyr, yr heddlu, gwasanaeth tân ac achub a'r gwasanaeth ambiwlans.
- **Swyddog Diogelwch Digwyddiadau** – fydd yn cadw golwg ar ddiogelwch cyfranogwyr a staff. Bydd aelod arall o'r tîm a chyfarwyddwr y digwyddiad yn cynorthwyo'r Swyddog Diogelwch Digwyddiadau, pan fo hynny'n berthnasol.

Y rhain yw'r pwyntiau allweddol y dylai eich Swyddog Diogelwch Digwyddiadau (ISO) eu cwmpasu:

- Osgoi anafiadau

- Sicrhau bod pobl yn derbyn sylw meddygol priodol
 - Atal anafiadau i staff a chyfranogwyr eraill
 - Cadw cofnodion cywir
 - Aros ar y safle bob amser
 - Cysylltu â'r gwasanaethau brys i hysbysu digwyddiad
 - Sicrhau bod cyfranogwyr yn cwblhau'r llwybr yn ddiogel
 - Rhaid cael manylion cyfranogwyr, cynllun diogelwch, cynllun marsialiaid, manylion cysylltu mewn argyfwng, ffurflenni digwyddiadau a map manwl
- **Rheolaeth Ras** (*pan fo hynny'n briodol*): rhaid trin yr holl ddigwyddiadau drwy staff y ras. Bydd yr holl farsialiaid yn cael manylion cysylltu mewn argyfwng fydd yn cael ei gyfeirio at ffonau poced / radios. Dylai rheolwyr y ras fod â holl fanylion union leoliad y marsialiaid, cysylltiadau mewn argyfwng a manylion cyfranogwyr a byddant yn llenwi unrhyw ffurflenni digwyddiadau ynghylch problemau sy'n digwydd.
 - **Contractwyr**: bydd angen i gontractwyr sy'n ymwneud â'r digwyddiad ddilyn hysbysrwydd lechyd a Diogelwch a rhoi'r canlynol i'r Cyngor:
 - Copi o'u polisi lechyd a Diogelwch
 - Copi o yswiriant atebolrwydd cyflogwyr
 - Ffurflenni asesiad risg
 - Datganiadau dull
 - Tystysgrifau hylendid os ydynt yn gwerthu bwyd
 - Cofnodion diogelwch a gadwyd
 - Ar gyfer unrhyw adeileddau neu bebyll mawrion rhaid cael disgrifiad manwl o sut fyddant yn cael eu cynnal os bydd y tywydd yn newid a materion diogelu rhag tân.
 - **Stiwardiaid / Marsialiaid**: Rhaid i stiwardiaid holl ddigwyddiadau gael cyfarwyddwyd llawn ar bob agwedd ar y digwyddiad gan gynnwys rheoli torfeydd a threfniadau argyfwng. Dylid rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig, cynlluniau safle a rhestri adolygu iddynt. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn gallu adnabod stiwardiaid yn rhwydd trwy eu gwisgo mewn siacedi tra amlwg ac y gallant gyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd, eu goruchwyliwr, pwy bynnag sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch, a rheolwr y digwyddiad at ei gilydd. Dylai holl stiwardiaid gael hyfforddiant priodol a bod yn gymwys, oherwydd y bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o beryglon a allai ddatblygu yn ystod y digwyddiad.
 - **Cymorth Cyntaf a Materion Meddygol**: Dylai trefnydd y digwyddiad gynnal asesiad risg meddygol, gan ystyried pethau fel gweithgareddau'r digwyddiad, y niferoedd, mathau a grwpiau oedran sy'n mynychu, mynediadau ac allanfeydd, y safle ac adeileddau a materion lechyd, Diogelwch a Lles. Dylid seilio darpariaeth ddigonol o adnoddau, yn niferoedd a mathau, (e.e. Cymhorthwyr Cyntaf, Ambiwlansiau, Parafeddygon, ac ati) ar gyfarwyddyd cyhoeddedig, yn enwedig y 'Llawlyfr Porffor'. Ysgrifennwyd y cyfarwyddyd hwn gan Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau ar ôl ymgynghori â'r diwydiant digwyddiadau. Ei nod yw cynorthwyo trefnyddion achlysuron reoli iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn digwyddiadau cerddoriaeth eang ac achlysuron tebyg. Nid yw'r Llawlyfr Porffor ar gael heblaw drwy danysgrifio i wefan 'Y Diwydiant Diogelwch Digwyddiadau'. Dilynwch y dolenni at y llawlyfr yn <http://www.thepurpleguide.co.uk>

Yn ogystal mae canllawiau eraill yn cynnwys 'A Guide to Safety at Sports Grounds' (y 'Llawlyfr Gwyrdd') sydd i'w gael yn:

<http://www.safetyatsportsgrounds.org.uk/publications/green-guide>

Bydd amryw sefydliadau'n darparu gwasanaethau meddygol ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn dewis sefydliad cymwys, wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n gallu ateb galwadau'r digwyddiad ac yn gymeradwy i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Ni ddylai darpariaeth feddygol ar gyfer y digwyddiad ddibynnu ar ddarpariaeth 'arferol' Gwasanaeth Ambiwlans statudol y GIG at ddefnydd y cyhoedd (h.y. trefn "999").

Cynllun Diogelwch rhag Tân

Disgwyliadau'r Awdurdod Tân yw bod holl ddigwyddiadau'n cydymffurfio â'r Gorchymyn Diogelwch Tân, sef bod y canlynol gan y trefnydd:

- Trefn ddianc
- Llwybrau dianc a diangfâu tân addas
- Offer diffodd tân addas yn cael ei ddarparu
- Dull o seinio rhybudd os bydd tân
- Aseiad risgiau tân i nodi peryglon a phobl sydd mewn perygl a bod mesurau rheoli addas yn bodoli.

Bydd angen i'r Gwasanaethau Brys allu cyrraedd digwyddiadau, fydd yn golygu lled o 3.7m o leiaf ar gyfer cerbydau argyfwng.

Dylai eich aseiad risgiau tân fod ar sail dogfen Canllawiau Llywodraeth EM, "Asesu Risg Diogelwch Tân, Digwyddiadau a Mannau Cyfarfod Awyr Agored" [ISBN 13.978.1.851128235].

<https://www.gov.uk/government/collections/fire-safety-law-and-guidance-documents-for-business>

Dylai eich mesurau rheoli manwl gynnwys hyfforddi personél perthnasol, offer diffodd tân, mynediad y gwasanaethau brys, llwybrau dianc digonol, arwyddion, seinio rhybudd os bydd tân, goleuadau argyfwng a mesurau i reoli peryglon fel coginio, eitemau trydanol, silindrau nwy, eitemau llosgadwy a thanau bwriadol.

Cynlluniau wrth gefn

Mae angen cynllunio pob cyfnod o'r digwyddiad a rhaid neilltuo personél digonol i swyddogaethau penodol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar yr achlysur yn ddiogel rhag niwed. Mae'n angenrheidiol creu cynllun wrth gefn oherwydd bod mwyafrif y digwyddiadau o gwmpas Sir Benfro'n gorfforol a pherygl / damweiniau annisgwyl yn gallu digwydd.

Wrth baratoi eich cynllun wrth gefn un o'r camau cyntaf yw nodi digwyddiadau sy'n gallu digwydd oddi ar y llwybr. Caiff y rhain eu galw'n ddigwyddiadau arwyddocaol y bydd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Enghreifftiau o'r digwyddiadau hyn yw:

- Llwybrau'n cael eu rhwystro oherwydd cyflwr y tywydd, e.e. llifogydd.
- Cyfranogwyr ar golltra byddant allan (rasys).

- Cyfranogwyr a anafwyd ac sydd angentriniaeth feddygol.
- Gohirio neu roi'r gorau i'r digwyddiad cyn iddo ddechrau.
- Pobl goll (plant).

Ystyriwch oblygiadau tywydd eithafol h.y. glaw, gwynt, haul, oerfel ac ati ar y digwyddiad. A fydd y digwyddiad yn cael ei ganslo neu a allai'r digwyddiad gael ei symud i fan cyfarfod arall dan do?

Bydd hyn yn golygu llawer o gynllunio a gall fod yn rhy gymhleth i unrhyw beth heblaw'r digwyddiadau lleiaf. Gallai fod senarios eraill hefyd, y dylid cynllunio ar eu cyfer, fel trin torf siomedig os nad yw'r prif atyniad wedi cyrraedd. Enghreifftiau cyffredin yw'r rhain o beth all ddigwydd yn ystod digwyddiad.

Cynllun Argyfwng

Dylid sefydlu cynllun ffurfiol i ddelio ag unrhyw argyfyngau all godi yn ystod y digwyddiad. Bydd cymhlethdod hyn yn adlewyrchu maint a natur y digwyddiad ei hun. Bydd cynllun syml hawdd ei ddilyn yn dderbyniol ar gyfer digwyddiad bach. Os yw eich digwyddiad yn fawr, byddwch yn gorfod cysylltu â'r gwasanaethau brys, ysbytai lleol a'r awdurdod lleol.

Cynllun Safle

Dylid llunio cynllun safle'n dangos gosodiad y digwyddiad lle bydd yr holl atyniadau'n cael eu gosod. Trefnwch yr holl fynedfeydd ac allanfeydd a manylu'r rhain ar y cynllun.

Yn ystod y digwyddiad os bydd angen gwagio'r safle neu lwybr ar unrhyw adeg dylid trosglwyddo holl negeseuon trwy ffonau / radios rhwng staff, marsialiaid, yr heddlu a chymorth cyntaf i benderfynu'r camau gweithredu gorau.

Arwyddion y Digwyddiad

Mae angen arwyddion argyfwng, llwybrau diogelwch tân a llwybrau cyffredinol sut bynnag i gyfeirio'r cyhoedd. Bydd y mynychwyr yn cael eu cyfeirio hefyd at ardaloedd yn ôl cyfarwyddyd y stiwardiaid / marsialiaid.

Cau Ffordd

Bydd unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn cau ffordd neu wyriad angen Gorchymyn Cau Ffordd gan yr Awdurdod Lleol. Mae'n cymryd o leiaf **8 wythnos neu 10-12 wythnos ar gyfer digwyddiad mawr** i wneud cais. Felly, sicrhewch fod eich cais yn cyrraedd yr adran draffig yn ddigon buan. Wrth wneud cais i gau ffordd ar gyfer digwyddiad, mae angen anfon llythyr at y Cyfarwyddwr Cludiant, Tai a Gwasanaethau Amgylcheddol, gyda manylion llawn y digwyddiad, dyddiadau, amseroedd, hyd, cynlluniau rheoli traffig a manylion cysylltu.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Adran Draffig y Cyngor yn traffic2@sir-benfro.gov.uk neu drwy ffonio 01437 764551.

Rheoli Gwastraff

Yn ystod unrhyw ddigwyddiad mae bob amser rhyw fath o wastraff yn cael ei gynhyrchu ar y safle, cynwysyddion bwyd a diod yn bennaf. Mae angen cael gwared ar y gwastraff hwn ar ôl y digwyddiad ac mae'n ffurfio rhan o'r cyfnod tacluso. Yn ystod y digwyddiad mae'n rhwyddach gosod biniau a chyflogi patrolau ysbwriel

rheolaidd i sicrhau mai dim ond ychydig o wastraff sy'n crynhoi yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

Wrth gasglu gwastraff fe all fod rhai peryglon i'w nodi, fel anafiadau all gael eu hachosi, e.e. pigladau nodwydd, toriadau, crafiadau, heintiau ac ati. Fe all croniadau gwastraff beri rhwystro mynediad a llwybrau dianc ar y safle neu greu peryglon baglu. Dim ond ychydig o enghreifftiau yw'r rhain i'w hystyried wrth greu eich asesiad risg.

I gael rhagor o wybodaeth am wastraff ac ailgylchu, cysylltwch â'r Adran Rheoli Gwastraff ar 01437 764551 neu e-bostio wasteandrecycling@sir-benfro.gov.uk

Gorsafoedd Lles a Chymorth

Yn unrhyw ddigwyddiad fe all fod yn gyfleus greu gorsaf plant neu bobl coll. Yn yr orsaf dylai fod staff a gofrestrwyd dan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylid cadw cofrestr o holl blant a phobl coll yn manylu eu bod ar goll, gyda phwy oeddent, ble'r oeddent a'r dyddiad ac amser.

Yna dylai trefnydd yr achlysur ofyn i'r sylwebyddion ddarlledu neges i'r rhieni / gwarcheidwad ddod i'r orsaf mor fuan ag y gallant. Wedyn dylai'r staff gyda chadarnhad DBS gadarnhau pwy yw'r bobl sy'n dod i gasglu er mwyn sicrhau mai nhw yw'r rhieni / gwarcheidwad. Bob amser rhaid i'r staff DBS roi manylion i drefnyddion y digwyddiad.

Diogelwch Cyffredinol

Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, efallai fod angen trefniadau diogelu penodol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau eiddo dros nos. Mae angen i bersonél sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ddiogelu fod â chofrestriad Awdurdod y Diwydiant Diogelwch os daw eu gwaith â nhw i gysylltiad â'r cyhoedd.

Dylid trefnu casglu arian i sicrhau bod cyn lleied o hyn ag y bo modd mewn manau casglu a bod casgliadau rheolaidd yn cael eu gwneud i ardal ddiogel. Yn dilyn eich asesiad risg, efallai y bydd ar stiwardiaid neu gynorthwyr sy'n casglu arian parod angen gwregysau arian neu gyfleusterau cludo eraill ac ni ddylent weithredu ar eu pennau'u hunain. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus ychwanegol i drefniadau cyfrif a bancio.

3.0 Trefnu'r digwyddiad

Marchnata

Wrth farchnata eich digwyddiad, meddyliwch am ddefnyddio e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu'r Rhyngwrdd i gyfathrebu â'ch cynulleidfa darged. Bydd cynhyrchu llai o ddeunydd marchnata papur yn gwella cynaliadwyedd eich digwyddiad a gall leihau eich treuliau. Efallai y byddwch hefyd eisiau hyrwyddo dewisiadau cludiant cynaliadwy trwy roi gwybodaeth am fysiau lleol, mapiau llwybrau cerddwyr o'r gorsafoedd trenau neu fysiau agosaf a/neu gysylltiadau â gwefannau eraill sy'n rhoi'r wybodaeth hon. Fe all nawdd cwmnïau lleol hefyd hyrwyddo eich digwyddiad oherwydd hoffusrwydd a phoblogrwydd.

Arlwyo

Sicrhewch y cofrestrwyd holl arlwywyr gydag awdurdod lleol fel Gweithredwr Busnes Bwyd. Nid oes llawer o werth mewn cael tystysgrifau hyfforddiant hylendid bwyd am

nad ydynt yn ofyniad ac ni fyddant gan bawb (yn enwedig busnesau risg isel). Yn ogystal â bod yn gofrestredig, yr argymhelliad cryf yw bod trefnyddion yn cadarnhau bod gan holl arlwywyr **raddfa hylendid bwyd o3 neu uwch**. Mae modd gwirio hyn ar wefan FSA yn www.food.gov.uk/ratings neu gyda'r Awdurdod Lleol lle cofrestrwyd y busnes.

Dylid gosod unedau'n gall megis draw o ardaloedd gweithgaredd plant ac yn agos at gyflenwadau dŵr ac ati. Dylid gadael digon o le rhwng cyfleusterau arlwygo i atal unrhyw berygl ymlediad tân. Er mwyn gwella cynaliadwyedd, ystyriwch ddefnyddio cwmnïau arlwygo lleol, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio cynhyrchion lleol.

Cysylltwch â Diogelwch Bwyd y Cyngor i drafod ceisiadau os bydd angen yn foodsafety@benfro.gov.uk neu ffoniwch 01437 764551.

Adeileddau Dros Dro (Llwyfannau, pebyll, pebyll mawrion)

Os ydych yn defnyddio pebyll mawrion neu adeileddau dros dro eraill yn y digwyddiad rhaid i chi sicrhau eu bod yn adeiladau cydnerth, diddos, gwyntglos, gwrthdan ac wedi'u llunio a'u hadeiladu i atal mynediad dŵr a phlâu. Hefyd sylwch y dylai'r cwmni sy'n cyflenwi'r babell fawr ei hyswrio eu hunain a rhoi rhif cyswllt 24 awr.

Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw'r babell fawr neu adeileddau dros dro eraill cyn i'r achlysur nesaf gymryd yr awenau neu nes bydd cwmni'r babell fawr yn ei chwalu. Rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau diogelwch yr adeiledd.

Sylwch: Mae angen i Gyngor Sir Penfro gymeradwyo ac archwilio holl ddiogelwch adeileddau dros dro. Dylai gosodwyr ddarparu tystysgrifau diogelwch i Gyngor Sir Penfro ar gyfer llwyth gwynt, diogelwch trydanol, ac ati.

Rhwystrau Diogelwch

Dylid defnyddio rhwystrau i reoli'r dorf er mwyn sicrhau cadw llwybrau'n glir ar gyfer y cyfranogwyr ac i wahanu rhwng y dorf a'r perfformwyr.

Bydd gofyn cael rhwystrau i warchod y cyhoedd rhag peryglon penodol fel peirianwaith symudol, barbeciwiau, cerbydau ac unrhyw arddangosfeydd peryglus eraill ac ati. Mewn rhai achosion, bydd angen i rwystrau fod â llwyth diogel penodedig yn ddibynnol ar faint o bobl sy'n debygol o fynychu a natur swyddogaeth y rhwystrau. Dylid cael adeileddau dros dro oddi wrth gyflenwyr profiadol a phroffesiynol yn unig.

Gosodiadau Trydanol a Goleuo

Pan fo prif gyflenwad trydan yn cael ei ddefnyddio, sydd heb fod ar dir y Cyngor neu'n cael ei gymryd o adeiladau'r Cyngor, yr argymhelliad yw eich bod yn cyflogi trydanwr cymwysedig i wneud y gwaith.

Rhaid i drydanwr cymwysedig osod cyflenwadau trydanol a'r argymhelliad yw bod holl waith trydanol yn cael ei roi i gontractwr trydanol sefydledig cydnabyddedig.

Rhaid gwarchod unrhyw gyflenwadau sy'n dod o drydan prif gyflenwad 240 folt gyda RCD (Dyfais Cerrynt Gweddillol) i roi rhywfaint o amddiffyniad rhag sioc drydanol.

Mae defnyddio cyflenwadau trydanol awyr agored yn gofyn bod offer yn ddiddos i'r safon briodol. Rhaid manylu hyn i'r contractwr gosodiadau.

Faint Fydd Yno

Mae angen gwneud amcangyfrif o faint o bobl y credwch fydd yn mynychu'r digwyddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o bobl i ddarparu ar eu cyfer; mewn cysylltiad â rheoli torfeydd, lluniaeth, cyfleusterau, arwynebedd tir ac ati. Hefyd rhaid i chi ystyried bod staff yn rhan o'r nifer sydd yno. Mae angen cynnwys hyn hefyd yn y cynllun er mwyn atal rhag gorlenwi. Bydd digwyddiadau mawr yn denu torfeydd mawr; felly byddwch yn barod. Cyfeiriwch yn ôl at ganiatâd tir ar gyfer ceisiadau a gwybodaeth.

Cludiant

Os ydych yn bwriadu darparu cludiant ar gyfer eich digwyddiad, rhaid i chi ei drefnu o flaen llaw a gweld bod amserlenni gan eich cynulleidfa ynghylch manau codi a gollwng swyddogol.

Toiledau

Sicrhewch fod darpariaeth ddigonol o doiledau ar gyfer faint o bobl y mae disgwyl iddynt fynychu'ch digwyddiad, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl anabl. Lle bo modd, gosodwch doiledau mewn gwahanol fannau o gwmpas y lleoliad yn hytrach nag mewn dim ond un ardal i leihau gorlenwi a phroblemau ciwio. Dylai fod cyfleusterau golchi'r dwylo mewn toiledau, gan gynnwys dŵr poeth a sebon a lleiniau sychu, yn enwedig unrhyw gyfleusterau sy'n cael eu darparu ar gyfer trinwyr bwyd.

Dengys y tabl canlynol y canllawiau cyffredinol ar ddarparu cyfleusterau lles:

Ar gyfer digwyddiadau sydd ar agor am 6 awr neu fwy		Ar gyfer digwyddiadau sydd ar agor am lai na 6 awr	
Benywod	Gwrywod	Benywod	Gwrywod
1 toiled fesul 100 o fenywod	1 toiled fesul 500 o wrywod, ynghyd ag un droethfa fesul 150 o wrywod	1 toiled fesul 150 o fenywod	1 toiled fesul 600 o wrywod, ynghyd ag un droethfa fesul 175 o wrywod

I gael rhagor o fanylion ynghylch darparu toiledau, cyfeiriwch at *BS6465: Rhan 1 2006* neu'r Llawlyfr Porffor <http://www.thepurpleguide.co.uk>

Rheoli Sŵn

Parchwch eiddo sensitif i sŵn yn y cyffiniau a'r effaith y gallai'r digwyddiad ei chael arnynt. Meddylwch am natur a hyd y digwyddiad. Sicrhewch fod sŵn cerddoriaeth yn cael ei reoli'n ddigonol i atal niwsans sŵn i drigolion, yn enwedig y gydran fas a systemau Cyhoeddi Cyhoeddus (PA). Ystyriwch siarad â chymdogion cyn y digwyddiad a rhoi rhifau cyswllt rhag ofn bod problemau. Wynebwcw lwyfannau oddi wrth eiddo preswyl lle bo modd.

Cofiwch mai canllawiau gweithredol cryno o'r hyn ddylai fod yn ofynnol wrth drefnu digwyddiad yw'r wybodaeth uchod. Cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 764551 i weld pa ganiatâd arall all fod ei angen.

4.0 Paratodau Terfynol

Cyn y digwyddiad dylid cynnal archwiliad lechyd a Diogelwch, gan gynnwys y canlynol:

- **Llwybrau:** sicrhewch fod holl llwybrau'n glir bob amser yn enwedig llwybrau dianc.
- **Archwiliadau:** rhaid eu gwneud yn ystod ac ar ôl y digwyddiad i sicrhau bod unrhyw beryglon all fod i ddiogelwch i gyd yn cael eu hatal. Dylid cynnal amryw archwiliadau yn ystod y digwyddiad.
- **Arwyddion:** sicrhewch fod holl arwyddion yn cael eu dangos lle bo angen, gan gynnwys man Cymorth Cyntaf, drysau dianc, toiledau, pwyntiau tân a hysbysrwydd.
- **Stiwardiaid / Marsialiaid:** sicrhewch fod stiwardiaid yn cael cyfarwyddyd byr o flaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth mae eu dyletswyddau'n ei olygu, eu bod yn gwisgo'r dillad cywir ac yn gwybod ble maent i fod.
- **Meddygol:** dylid creu man meddygol lle mae cymhorthwyr cyntaf ar gael ar gyfer unrhyw ddamwain a dylai fod yn hollol amlwg gydag arwyddion ato.
- **Hysbysrwydd Cyhoeddus:** sicrhewch fod system hysbysu'r cyhoedd yn gweithio a bod modd ei chlywed ymhob ardal.
- **Briffio:** yn ogystal â'r stiwardiaid, dylai holl aelodau'r staff yn ystod y digwyddiad gael cyfarwyddyd byr o'u swyddogaethau a'r hyn y mae disgwyl iddynt ei gyflawni yn ystod ac ar ôl y digwyddiad fel nad oes unrhyw ddryswch.
- **Adeileddau:** sicrhewch fod holl lwyfannau, seddau, pebyll mawrion, goleuo ac adeileddau dros dro eraill ac offer wedi cael eu codi'n ddiogel a bod y contractwyr perthnasol wedi rhoi tystysgrifau fel cofnod o hyn.

Caiff rhestr adolygu cyn ac yn ystod y digwyddiad ei dangos yn Atodiad 2.

5.0 Ar ôl digwyddiad

Unwaith y bo'r digwyddiad ar ben mae'n ddefnyddiol myfyrio ac asesu sut aeth pethau a phroblemau y gellid eu lleihau neu ddatrys yn y dyfodol. Dylech ystyried sut aeth y digwyddiad at ei gilydd, faint o bobl ddaeth yno, a wnaed unrhyw elw ac o ble daeth hwnnw? A darwyd pob nod? A wnaeth sylw'r cyfryngau eich helpu? Oeddech chi wedi paratoi digon ar gyfer y digwyddiad a thrin unrhyw risgiau neu beryglon yn y ffordd gywir a beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Dylid gohebu â'r bobl ganlynol: eich noddwyr; siaradwyr; eich gwestywr; Cyngor Sir Penfro; a phawb a wnaeth i'r achlysur ddigwydd. Os oes gennych unrhyw ffotograffau o'r digwyddiad gall hyn fod o ddiddordeb yn yr ohebiaeth hefyd i weld llwyddiant y digwyddiad ar ffurf ffotograffau a dogfennau.

Cyflwr y Safle

Ar ôl y digwyddiad, dylid cynnal archwiliad arall i sicrhau na adawyd dim ar y safle. Dylai'r archwiliad hwn hefyd nodi unrhyw ddifrod all fod wedi cael ei achosi yn ystod y digwyddiad. Os caiff unrhyw adeileddau eu gadael dros nos, rhaid sicrhau eu gadael mewn cyflwr diogel a'u diogelu rhag fandaliaeth, ac ati. Os caiff adeileddau niferus eu gadael, dylai fod trefniadau diogelu penodol yn ofynnol. Dylid gadael y safle yn yr un cyflwr yn union ag yr oedd cyn creu'r digwyddiad.

Damweiniau

Os digwydd unrhyw ddamwain, dylai trefnydd y digwyddiad gael enwau a chyfeiriadau tystion, tynnu ffotograffau a gwneud adroddiad. Dylid llenwi ffurflen ddamwain ac anfon copi i'r Cyngor. Mae enghraifft i'w chael yn <http://www.hse.gov.uk> Bydd angen i chi hysbysu eich cwmni yswiriant eich hun hefyd.

Os caiff unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad peryglus ei hysbysu, rhaid gweithredu i atal rhagor o ddigwyddiadau rhag digwydd. Mae cyngor i'w gael gan Dîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn health&safety@sir-benfro.gov.uk neu drwy ffonio 01437 764551.

Hawliadau

Os bydd unrhyw un yn datgan bwriad i wneud hawliad yn dilyn digwyddiad honedig cysylltiedig â'r achlysur, dylai trefnydd y digwyddiad gysylltu â'i yswirwyr ar unwaith. Efallai y bydd angen llenwi ffurflen ddamwain hefyd.

Atodiadau

Atodiad 1:

Rhestr o gysylltiadau ar gyfer rhagor o wybodaeth:

➤ **Cyngor Sir Penfro**

Neuadd y Sir
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
E-bost: enquiries@sir-benfro.gov.uk
Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk

➤ **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Adran Diogelwch rhag Tân
Pencadlys Gorchymyn Ardal y Gorllewin
Merlin's Hill
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1PG
Ffôn: 08706 060699
E-bost: mail@mawwfire.gov.uk
Gwefan: <http://www.mawwfire.gov.uk/Pages/Welcome.aspx>

➤ **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru**

Rhanbarth Canolog a Gorllewinol
Tŷ Maes y Gruffudd
Ysbyty Cefn Coed
Crockett
Abertawe
SA2 0GP
Ffôn: 01792 562900
Gwefan: <http://www.ambulance.wales.nhs.uk/>

➤ **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Adeiladau'r Llywodraeth
Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5SH
Ffôn: 029 2026 3000
E-bost: hseinformationservices@natbrit.com
Gwefan: <http://www.hse.gov.uk/>

Rhagor o wybodaeth

Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Arlwyio Awyr Agored a Symudol y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH)

http://www.cieh.org/uploadedFiles/Core/Policy/Publications_and_information_services/Policy_publications/Publications/CIEH_Outdoor_Mobile_Catering_Guidance_Final_Consultation.pdf

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) Canllawiau Ar-lein ar gyfer Digwyddiadau

<http://www.hse.gov.uk/event-safety/index.htm>

Canllawiau Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru ar ddarparu Cyflenwadau Dŵr Yfed Dros Dro mewn Digwyddiadau

<http://www.cieh-cymruwales.org/WorkArea/showcontent.aspx?id=3400>

Ysgrifennwyd yr 'Arweinlyfr Porffor' gan Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau ar ôl ymgynghori â'r diwydiant digwyddiadau. Ei nod yw cynorthwyo trefnyddion achlysuron reoli iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn achlysuron cerddoriaeth mawr a digwyddiadau tebyg. Dim ond drwy danysgrifio i wefan 'Y Diwydiant Diogelwch Digwyddiadau' y mae modd cael gafael ar Yr Arweinlyfr Porffor. Dilynwch y dolenni i <http://www.thepurpleguide.co.uk>

Canllawiau i Ddiogelwch mewn Meysydd Chwarae (yr 'Arweinlyfr Gwyrdd')

<http://www.safetyatsportsgrounds.org.uk/publications/green-guide>

Dogfen Canllawiau Llywodraeth EM, "Asesu Risg Diogelwch rhag Tân, Digwyddiadau a Mannau Cyfarfod Awyr Agored" [ISBN 13.978.1.851128235].

<https://www.gov.uk/government/collections/fire-safety-law-and-guidance-documents-for-business>

Atodiad 2: Rhestr Adolygu

	IE ✓	NA X	Sylwadau
Ymgynghori â'r Awdurdod Lleol (o fewn yr amserlen)			
Asesiadau Risg			
Caniatâd Perchennog y Tir (Preifat / ym meddiant CSP)			
Ymgynghori â Heddlu Dyfed Powys			
Dangos Ymgysylltu â'r Gymuned			
Yswiriant			
Yswiriant Meddygol			
Penodi Sefyllfa Arweiniol			
Rhagofalon Tân (mynedfeydd ac allanfeydd)			
Iechyd a Diogelwch (y man cyfarfod)			
Cafwyd caniatâd yr Awdurdod Lleol (adrannau perthnasol)			
Toiledau			
Cynaliadwyedd			
Digwyddiad Mawr (12-18 mis)			
Digwyddiad Unigryw (9 mis)			
Digwyddiad Twf (3 mis)			
Digwyddiad Cymunedol (2 fis)			
Cau Ffordd 10-12 wythnos (os bydd angen)			
Rheoli Torfeydd			
Cyfleusterau Parcio			

Atodiad 3: AseiadRisg (templed)

Aseiad Risg

Enw'r Sefydliad:

Digwyddiad:

Beth yw'r peryglon?	Pwy allai gael eu niweidio a sut?	Beth ydych chi'n ei wneud eisoes?	A oes angen i chi wneud unrhyw beth arall i reoli'r perygl risg hon?	Gweithredu gan bwy?	Gweithredu erbyn pryd?	Gwnaed
<i>Camau gweigion a bagliadau</i>	<i>Fe all staff ac ymwelwyr gael eu hanafu os byddant yn baglu dros bethau neu'n llithro ar ollyngiadau</i>	<i>Byddwn yn cadw tŷ'n gyffredinol dda. Goleuwyd holl ardaloedd yn dda gan gynnwys grisiau. Nid oes unrhyw wifrau neu geblau llusg. Bydd staff yn cadw ardaloedd gwaith yn glir, e.e. gadael dim blychau mewn rhodfeydd, cyflenwadau'n cael eu cadw ar unwaith, swyddfeydd yn cael eu glanhau bob noswaith</i>	<i>Mae angen cadw tŷ'n well yng nghegin y staff, e.e. gollyngiadau</i>	<i>Holl staff, goruchwyliwr i gadw golwg ar bethau</i>	<i>01/10/2010</i>	<i>01/10/2010</i>

Mae'n bwysig eich bod yn trafod eich aseiad a'ch camau arfaethedig gyda'r staff neu eu cynrychiolwyr.

Dylech adolygu eich aseiad risg os ydych yn meddwl nad yw'n ddilys mwyach, e.e. yn dilyn damwain yn y gweithle, neu os oes unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y peryglon yn eich gweithle, fel offer neu weithgareddau newydd.

Am ragor o wybodaeth ac er mwyn gweld ein hasesiadau risg engreiffiol, ewch at <http://www.hse.gov.uk/risk/casestudies/>